# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 167(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau Dros Dro

**NDM6856** – Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi nad yw Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu gweithredu:

a) mewn perthynas â chwyn gan Joyce Watson AC dyddiedig 8 Mai; a

b) mewn perthynas ag unrhyw gwyn arall sy'n codi o'r un pwnc.

2. Yn penodi, mewn perthynas ag unrhyw gwyn y cyfeirir ato ym mharagraff 1, Douglas Bain CBE TD fel Comisiynydd dros dro, yn unol ag Adran 4(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, ar y telerau a ganlyn:

a) bydd y penodiad yn dod i rym ar 7 Tachwedd 2018.

b) bydd y penodiad yn dod i ben ar unwaith pan roddir hysbysiad i'r Comisiynydd dros dro gan Glerc y Cynulliad.

c) bydd taliad y Comisiynydd dros dro yn gyfradd ddyddiol o £392 (neu pro-rata am ran o ddiwrnod) ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl a chyfrifoldebau'r swydd ynghyd â threuliau rhesymol.

d) bydd pob swm y cyfeirir ato ym mharagraff 2(c) i'w dalu i'r Comisiynydd dros dro gan Gomisiwn y Cynulliad.

**Dogfen Ategol**

[Datganiad gan y Comisiynydd Safonau - Cyhoeddwyd ar 16 Hydref 2018]

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Canfyddiadau'r Rhaglen Garlam Annibynnol i Adolygu Galwadau Oren

(30 munud)

**Dogfen Ategol**

[Canfyddiadau'r Rhaglen Garlam Annibynnol i Adolygu Galwadau Oren]

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Diwygio Trefniadau Llywodraethu a Chyllid Awdurdodau Tân ac Achub - Gohiriwyd tan 13 Tachwedd 2018

(0 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – y wybodaeth ddiweddaraf am y Mesurau Arbennig

(30 munud)

**Dogfennau Ategol**

Special Measures Framework: May 2018 – September 2019 *(Saesneg yn unig)*
Special Measures Improvement Framework May 2018-September 2018 – Overview Report *(Saesneg yn unig)*
Unscheduled Care 90 day plan *(Saesneg yn unig)*

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Cofio ein Lluoedd Arfog a Chyflawni ar gyfer Cymuned ein Lluoedd Arfog

(30 munud)

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ifori

(15 munud)

**NDM6847** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Ifori, i'r graddau y bônt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Lywodraeth y DU.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Dogfennau'r Bil - Ivory Bill 2017-19 — Senedd y DU *(Saesneg yn unig)*

## 8 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru)

(60 munud)

**NDM6850** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru).

Gosodwyd y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 11 Mehefin 2018.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 26 Hydref 2018.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 9 Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru)

(5 munud)

**NDM6851** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 10 Dadl: Adolygiad Blynyddol Pwyllgor Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2017/18

(60 munud)

**NDM6849** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adolygiad Blynyddol Pwyllgor Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2017-2018.

**Dogfennau Ategol**

Adolygiad Blynyddol Pwyllgor Cymru 2017-2018

A yw Cymru'n Decach?

Tai a Phobl Anabl - Argyfwng Cudd Cymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi:

a) argymhellion allweddol yr adroddiad ynghylch dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a

b) yr argymhelliad yn llythyr y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei safbwynt diweddaraf ar gyflwyno dyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Brexit a Chydraddoldebau - Casgliadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn deillio o'u gwaith ar y cyd

**Gwelliant 2** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at ddirwyn grant byw'n annibynnol Cymru i ben ac yn credu na all llywodraeth leol ddarparu lefel gyfatebol o gymorth ariannol oherwydd toriadau Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 3** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i bobl sy'n goroesi ymosodiadau rhywiol a cham-drin domestig yn parhau i fod yn annigonol.

**Gwelliant 4** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y canfyddiad bod tlodi yng Nghymru yn dwysáu ac yn credu y dylai mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau dosbarth chwarae rôl allweddol o ran hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Gwelliant 5** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y twf rhyngwladol mewn symudiadau gwleidyddol sy'n ceisio dirwyn amddiffyniadau hawliau dynol yn ôl ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun ar gyfer cynnal hawliau dynol ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2018

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 01/11/2018 i'w hateb ar 06/11/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ52851

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar ei chyllideb ar gyllideb Llywodraeth Cymru?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

2 OAQ52862

**(e)**

Pa asesiad diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith Brexit ar recriwtio myfyrwyr o 27 gwlad arall yr UE i sefydliadau addysgol ledled Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

3 OAQ52869

**(e)**

Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â llygredd aer yn sgil y rhybuddion gan Sefydliad Iechyd y Byd?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

4 OAQ52842

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar adeiladu llosgyddion?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

5 OAQ52890

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o fodelau cyflawni posibl ar gyfer morlyn llanw Bae Abertawe?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

6 OAQ52844

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu'r symiau canlyniadol Barnett sy'n deillio o gyllideb y DU?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

7 OAQ52885

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi economi Pen-y-bont ar Ogwr?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

8 OAQ52888

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o dai ar gyfer plant sy'n agored i niwed?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

9 OAQ52857

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn ystod ei gyfnod yn ei swydd?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

10 OAQ52887

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymyriadau a wnaed gan Weinidogion ar faterion cynllunio ledled Cymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OAQ52871

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar chwaraeon maes?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

12 OAQ52860

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ardrethi busnes?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

13 OAQ52889

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu ffoaduriaid sy'n blant i ganfod lloches yng Nghymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

14 OAQ52886

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd plismona i ddiogelwch cymunedol?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

15 OAQ52858

**(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau bach dros y 12 mis nesaf?

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 13 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Y Dull Cenedlaethol tua Dysgu Proffesiynol (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Diwygio Trefniadau Llywodraethu a Chyllid Awdurdodau Tân ac Achub (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Gwella Canlyniadau i Blant: Lleihau'r Angen i Blant fynd i Mewn i Ofal, a Gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Lles Anifeiliaid (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynlluniau Cyflenwi ar gyfer y Gaeaf
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)
  - Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018
  - Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2017-18 (60 munud)

**Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (45 munud)

- Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20 (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei Ymchwiliad i Baratoadau ar Gyfer Disodli Ffrydiau Cyllido’r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl fer - Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 20 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diwygio Gwasanaethau Deintyddol (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Symudedd Myfyrwyr Rhyngwladol (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Yr Adolygiad o Gyllid Addysg Bellach (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Buddsoddi mewn Ymyrraeth Gynnar a Dulliau Traws-Lywodraeth i fynd i'r afael â Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc (30 munud)
- Dadl: Sut rydym yn cyflawni system ynni carbon isel i Gymru? (60 munud)

**Dydd Mercher 21 Tachwedd 2018**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Creu'r Diwylliant Cywir (60 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-05-828 Rhagdybiaeth o Blaid Ysgolion Gwledig (60 munud)
- Dadl fer - Rhianon Passmore (Islwyn) (30 munud)

**Dydd Mawrth 27 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Y diweddaraf ar Gynllun Cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol (45 munud)
- Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Y diweddaraf ar Weithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (45 munud)
- Dadl: "Astudiaeth Ddichonoldeb i Oriel Gelf Gyfoes i Gymru" ac "Astudiaeth Ddichonoldeb i Amgueddfa Chwaraeon i Gymru" (60 munud)

**Dydd Mercher 28 Tachwedd 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Gwerthu Cymru i'r Byd (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i Gyllid Heblaw Cyllid Cyhoeddus ar gyfer y Celfyddydau (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)